

Cwrs Uwch - Uned Gyfoes

Bang

Geirfa


llofruddiaeth(au) trosedd(au)	<i>murder(s)</i> <i>crime(s)</i>	atgof(ion) llofrudd(ion) llyw(iau)	<i>memory</i> <i>(memories)</i> <i>murderer(s)</i> <i>helm(s)/</i> <i>steering wheel(s)</i>
darlledu lleoli perchnogi	<i>to broadcast</i> <i>to locate</i> <i>to own/to take</i> <i>possession of</i>	diarwybod ehangach penderfynol uchelgeisiol	<i>unknown</i> <i>wider/broader</i> <i>determined</i> <i>ambitious</i>
peth cyntaf	<i>first thing (i.e. early</i> <i>in the morning)</i>		

Cyflwyniad

Bydd y gyfres ddrama drosedd newydd 'Bang' yn cael ei darlledu ar S4C o nos Sul 23 Chwefror ymlaen. Mae'r gyfres wedi ei ffilmio yn ardal Port Talbot ac mae'r dref a'r ardal yn gymeriadau pwysig yn y ddrama mewn ffordd.

Siarad – Port Talbot

Dych chi'n gwybod ble mae Port Talbot? Beth ydy'r pethau a/neu'r bobl sy'n dod i'ch meddwl chi wrth feddwl am Port Talbot?



Pobl Port Talbot

Mae gan y bobl isod i gyd gysylltiad ag ardal Port Talbot. Ydych chi'n gwybod pwy ydyn nhw? Defnyddiwch frawddegau yn cynnwys **mai/taw** a **hwanna/honna** wrth drafod, er enghraifft:

Dw i'n meddwl mai _____ ydy hwanna.

Fallai mai _____ yw honna.

Baswn i'n dweud mai _____ ydy honna.

Dw i'n gwbl sicr taw _____ yw hwanna.

1.



2.



3.




4.



5.



6.



7.



8.



9.



10.



Cofeb i bwy?

11.



12. Pwy ydy'r arlunydd?



Llenwi Bylchau – Cyflwyniad i *Bang*

Darllenwch y darn isod a llenwch y bylchau gyda'r arddodiad cywir.

Drama drosedd wedi ei lleoli _____ Mhort Talbot yw *Bang*. Prif gymeriadau'r gyfres gyntaf oedd Sam (dyn ifanc tawel oedd yn teimlo _____ goll) a'i chwaer Gina (plismones uchelgeisiol). Roedd y gyfres yn dilyn Sam _____ iddo fe ddod i berchnogi gwn a'i ddefnyddio i droseddu. Yn ddiarwybod _____ Sam, roedd y gwn eisoes wedi cael ei ddefnyddio i ladd dyn busnes lleol a Gina oedd un o'r ditectifs oedd yn chwilio _____ y llofrudd. Tra oedden nhw'n chwilio _____ y llofrudd felly roedd Gina a'i chydweithwyr hefyd yn chwilio _____ berchennog y gwn - ei brawd hi.

Mae'r ail gyfres yn cychwyn gyda llofruddiaeth arall. Gina sydd _____ y llyw unwaith yn rhagor ond mae'n cael trafferth canolbwyntio _____ yr achos gan fod Sam wedi cael ei ryddhau o'r carchar.

Mae'r ymchwiliad _____'r llofruddiaeth yn ein cyflwyno ni i gast o gymeriadau lliwgar newydd. Trwy'r cyfan, mae Gina'n gwneud ei gorau glas _____ fod yn gefn _____'w brawd sy'n gwneud popeth yn ei allu i gadw draw o drwbwl.

1. Edrychwch ar y frawddeg gyntaf – **Drama drosedd wedi ei lleoli ym Mhort Talbot yw *Bang*.**

Defnyddiwch yr un patrwm i sôn am y mathau canlynol o bethau:

- a. Opera sebon

Opera sebon wedi ei lleoli yn/mewn _____ yw/ydy _____

- b. Ffilm

- c. Comedi sefyllfa

- ch. Ysgol uwchradd

- d. Canolfan...

2. Mae'r ymadrodd **yn ddiarwybod i Sam** yn golygu "heb i Sam wybod". Cwblhewch y brawddegau isod gan ddefnyddio'r ffurf gywir ar **yn ddiarwybod i**:

Yn ddiarwybod _____ mi, _____

Yn ddiarwybod _____ ti, _____

Yn ddiarwybod _____ fe/fo, _____

Yn ddiarwybod _____ hi, _____

Yn ddiarwybod _____ ni, _____

Yn ddiarwybod _____ chi, _____

Yn ddiarwybod _____ nhw, _____

Cymeriadau Dramâu Trosedd

Bydd eich tiwtor yn dangos lluniau o gymeriadau amlwg sydd wedi bod mewn dramâu trosedd dros y blynyddoedd ac yn gofyn ydych chi'n gwybod "Pwy ydy hwn/hon/'r rhain?" Eich tasg chi fydd cofio (neu ddyfalu) pwy ydyn nhw, e.e. 'Dw i'n meddwl mai Bergerac ydy hwnna / Dw i'n credu taw Juliet Bravo yw honna.'

Dramâu Trosedd Dwyieithog

Mae nifer o ddramâu trosedd wedi bod ar S4C yn ddiweddar sydd â fersiynau Saesneg wedi cael eu darlledu ledled Prydain ac yn rhyngwladol. Ymhlith y cyfresi yma, mae *Un Bore Mercher*, gafodd ei darlledu yn Saesneg dan yr enw *Keeping Faith* (cyfreithwraig o'r enw Faith Howells ydy'r prif gymeriad). Cyn hynny, cawson ni gyfle i ddod i nabod DCI Tom Mathias dros dair cyfres o *Y Gwyll* (neu *Hinterland*). Mae'r gyfres ddiwethaf i fod ar S4C – *Craith* yn cael ei darlledu yn Saesneg ar hyn o bryd ar BBC One yng Nghymru o dan yr enw *Hidden*. Mae *Bang* hefyd yn ddrama drosedd ddwyieithog, ond yn wahanol i'r lleill, does dim ffilmio cefn-wrth-gefn yn Gymraeg ac yn Saesneg wedi bod. Un fersiwn o *Bang* sydd. Mae rhai cymeriadau yn ddwyieithog ac mae rhai eraill yn ddi-Gymraeg, felly byddwch chi'n clywed rhai ohonyn nhw'n siarad Saesneg, rhai ohonyn nhw'n siarad Cymraeg a llawer o newid o un iaith i'r llall wrth i'r gwahanol gymeriadau ddod i gysylltiad â'i gilydd. Pan fydd y gyfres yn cael ei darlledu i gynulleidfa ehangach ym Mhrydain ac yn rhyngwladol, bydd isdeitlau ar y sgrîn pan fydd y Gymraeg i'w chlywed.

Siaradwch

- Dych chi wedi gwyllo unrhyw rai o gyfresi *Y Gwyll*, *Un Bore Mercher*, neu *Craith*?
- Wnaethoch chi wyllo'r fersiynau Cymraeg neu'r rhai Saesneg?
- Beth dych chi'n gofio o'r cyfresi hyn – y cymeriadau neu'r straeon?
- Dych chi'n mwynhau gwyllo dramâu trosedd yn gyffredinol? Pam?
- Dych chi'n arbennig o hoff o unrhyw gyfres ddrama drosedd yn benodol, neu dych chi'n cofio unrhyw un buoch chi'n ei dilyn yn y gorffennol?

Geirfa



Dewiswch y gair mwyaf addas i'w roi yn y bwlch yn y brawddegau isod (a'i dreiglo os oes angen):

1. Mae Siân wedi bod yn ymarfer ers wythnosau – mae hi'n _____ o redeg yr hanner marathon mewn amser da.
 - a. penderfynu
 - b. penderfynol
 - c. penderfyniad.
2. Pan ddes i'n ôl i'r gwaith ar ôl wythnos o wyliau, roedd cannoedd o _____ e-bost yn aros amdana i.
 - a. negeseuon
 - b. negeswyr
 - c. neges
3. Mae gen i _____ melys iawn o fy nyddiau ysgol – ro'n nhw'n ddyddiau da i fi.
 - a. atgoffa
 - b. atgyfodiad
 - c. atgofion
4. Dw i ddim yn hoff iawn o ddilyn arweiniad rhywun arall – mae'n llawer gwell gen i fod wrth y _____ fy hun.
 - a. lliw
 - b. llyw
 - c. llaw
5. Roedd Ben wrth ei fodd pan dderbyniodd _____ i barti pen-blwydd ei hen ffrind ysgol.
 - a. gwahodd
 - b. gwaddod
 - c. gwahoddiad



Gwyllo a Gwranddo - Bang

Byddwch chi'n gweld clip fideo o ran o bennod gyntaf cyfres newydd *Bang*, wedyn bydd eich tiwtor yn rhoi portreadau o'r tri chymeriad sy'n ymddangos yn y clip i chi. Rhowch y portread cywir gyda'r llun priodol o'r actorion isod:



1. Ar ôl gwyllo eto, llenwch y bylchau yn y brawddegau canlynol sy'n dod o'r clip:

- a. Cer _____. 'Sdim rhaid i ti aros am _____.
- b. Mae'n _____ i'r *station*, wi'n gallu _____ i'r gwaith os wi'n _____ mewn pryd.
- c. Bydde *caseworker* fi 'di gallu _____ rhywle i fi.
- ch. Cerddes i _____. Nath _____ stopo fi.
- d. Sori o'n i ffili _____ 'na. Odd rhaid i fi fynd â'r car i'r garej peth _____ ac odd llwyth o _____ yn aros amdano i yn y gwaith.
- dd. Clywais i fod pethe'n _____ yn y *station* 'fyd.

Mae iaith y cymeriadau'n adlewyrchu tafodiaith leol yr ardal ac yn cynnwys llawer o ddefnydd o eiriau Saesneg yn eu deialogau. Sut byddech chi'n ysgrifennu'r brawddegau uchod mewn Cymraeg mwy ffurfiol?

- a. _____
- b. _____
- c. _____
- ch. _____
- d. _____
- dd. _____

Trafodwch hefyd sut byddai pobl yn eich ardal chi yn dweud y pethau uchod.

2. Ystyriwch yr ymadrodd '**Sdim rhaid**/'**Sdim eisiau i ti aros am wahoddiad**. Meddyliwch am bethau eraill y gallech chi eu dweud yn lle "aros am wahoddiad" mewn gwahanol gyd-destunau, e.e.:

- wrth i rywun ddod i mewn i'ch tŷ;
- wrth i chi esbonio y byddwch chi'n hwyr yn cyrraedd adre;
- wrth i chi gerdded i mewn i ystafell lawn;
- wrth i chi drafod trefniadau ar gyfer eich pen-blwydd.

Wedi gwyllo'r clip darn unwaith eto, trafodwch y cwestiynau canlynol gyda'ch partner:

3. Enwch bum peth mae Gina wedi eu prynu i Sam?

4. Beth oedd gŵr Caryn wedi'i ddweud wrthi, a pham??

5. Pam mae hi'n arbennig o brysur yn swyddfa'r heddlu?

6. Ble mae Sam yn bwriadu mynd ar y diwrnod hwn?

Bydd cyfres newydd *Bang* yn cael ei darlledu ar S4C o'r 23 Chwefror. Mae'r gyfres gyntaf ar gael i'w gwyllo nawr ar wasanaeth S4C Clic ar y we.

Siaradwch

- Weloch chi gyfres gyntaf *Bang*? Wnaethoch chi ei mwynhau?
- Dych chi'n meddwl byddwch chi'n gwyllo'r gyfres newydd?
- Dych chi'n debygol o wyllo neu ail-wyllo'r gyfres gyntaf ar wasanaeth Clic?
- Dych chi'n gwyllo rhaglenni teledu yn y ffordd "draddodiadol", h.y. yn eistedd i lawr o flaen y teledu ac yn gwyllo ar yr amser maen nhw'n cael eu darlledu? Neu dych chi'n gwyllo yn eich amser eich hun trwy ap neu ar y we?

